# YMBWERU TRWY DDARLLEDU

## Adroddiad Terfynol

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

# YMBWERU TRWY DDARLLEDU
# Prosiect Fory

*We have to ensure the means of life, and the means of community. But what will then, by these means, be lived, we cannot know or say.*

*[Raymond Williams, Culture and Society, 1987]*

## 1 CYFLWYNIAD

Cyfrwng ysgogi, galluogi a chefnogi cymdogaethau siroedd y gorllewin i ymbweru – i feddwl, gweithredu a chreu eu dyfodol eu hunain - yw Radio Beca. Sefydlwyd prosiect **Ymbweru trwy Ddarlledu** er mwyn dwysau gweithredu Radio Beca ar yr egwyddor hon a, thrwy hynny, ddyfnhau y ddealltwriaeth ar botensial darlledu cymdeithasol i fod yn fodd grymus o greu a chynnal cymdeithas.

Mae 'darlledu' yn hen air â'i wreiddiau'n perthyn i oes gyn-dechnolegol. Ei ystyr yw 'lledu/rhannu yn eang'. Nid yw'r ddynameg o ledu wedi'i chyfyngu i un cyfrwng yn unig. Lledu yn eang trwy unrhyw gyfrwng/gyfryngau addas wrth law yw 'darlledu' ac mae ail-agor y gair i'w ehangder o botensial yn greiddiol i weledigaeth benodol **Ymbweru trwy Ddarlledu**.

Canolbwynt y broses o ledu a rhannu'n eang yw'r cwestiwn cydymaddysgol – y cwestiwn cychwynnol sydd, o'i gyd-drafod (gwrando yn ogystal a mynegi), yn ysgogi ymryddhad y ddynameg ymaddysgol a chreadigol o fewn y cyfranogwyr yn unigol ac fel grŵp.

Swyddogaeth **Ymbweru trwy Ddarlledu** yw (1) sicrhau taflu 'carreg' y cwestiwn cychwynnol i ystod eang o 'byllau' cymdeithasol a (2) gwylio, nodi a dehongli hyd a lled y tonnau o egni, dychymyg a gweithredu fyddai wedyn yn lledu a lledu.

Fel a ddengys yr adroddiad hwn mae tonnau'r darlledu a grewyd gan **Ymbweru trwy Ddarlledu** wedi bod nid yn unig yn amrywiol ac eang ond hefyd yn ddadlennol.

Ffoto hyrwyddo'r prosiect



## 2 Y FETHODOLEG WREIDDIOL

Bwriad cychwynnol **Ymbweru trwy Ddarlledu** - trwy gyfrwng Ysgogwyr Sirol – oedd creu rhwydwaith o seiadau trafod a darlledu lleol. Ar sail egwyddor Dysgu Rhaeadrol, ail fwriad y gweithredu oedd i unigolion o blith y seiadau cyntaf ledu'r rhwydwaith wrth greu ac arwain eu seiadau eu hunain. Yn ôl arfer y pryd, y disgwyl oedd i'r seiadau oll gyfarfod ynghyd ym mha bynnag ofod cyhoeddus (ffurfiol neu anffurfiol) fydde'n cynnig iddynt le cysurus ac ymarferol.

Ond tra'r oedd y prosiect newydd gychwyn ar y broses o hyfforddi'r ysgogwyr cyntaf daeth argyfwng Covid-19 i ymyrryd yn sylfaenol ar y rhagdybiaethau cymdeithasol cynhenid.

## 3 ADDASU'R FETHODOLEG

Dan orfodaeth y pandemig, trodd sesiynau hyfforddiant y prosiect yn sesiynau ymchwil a datblygu. Eu nod bellach oedd (1) cwestiynu a cheisio dadansoddi y sefyllfa gymdeithasol unigryw oedd yn bodoli yn y cyfnod penodol hwnnw yng nghymdogaethau'r tair sir, a (2) ceisio adnabod moddau o addasu'r bwriadau cyntaf er manteisio ar y cyflwr o stasis a grewyd gan y pandemig.

Trwy gyfrwng y drafodaeth hon arweiniwyd y tîm i weld y merddwr cymdeithasol – cyfnod yr amhosibilrwydd o gynnal y bwrlwm gweithredu oesol – yn gyfle i'r cymdogaethau edrych yn fanwl-wrthrychol ar eu hunain, a thrwy hynny adnabod o'r newydd eu hofnau a'u gobeithion, eu rhwystredigaethau a'u dyheadau. Hynny yw, roedd hwn yn gyfle unigryw i'r cymdogaethau (1) edrych yn feirniadol-werthfawrogol yn ôl a (2) ceisio adnabod heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Trwy gyfrwng y cwestiynu, trafod a dadansoddi uchod esblygodd **Ymbweru trwy Ddarlledu** i fod yn **Brosiect Fory**. Wedi'r gwaith ymchwil ac ail-ddiffinio adnabuwyd mai amcan y prosiect oedd...

- **dechrau ail-sefydlu'r arfer o fewn cymdeithas o gyd-drafod a chyd-gwestiynu**
- **ysgogi a chyflyrru newid trwy alluogi pobl a chymdeithas i ymbweru**
- **'darlledu' anghenion/potensial llawr gwlad yn eang ac yn bwrpasol**

## 4 METHODOLEG PROSIECT FORY

Gan addasu cysyniad y 'seiadau lleol' aeth y tîm ysgogwyr ati i gywain ynghyd grwpiau cyd-drafod ar draws y tair sir. I'r perwyl hwn defnyddiwyd adnodd Zoom, sef prif gyfrwng ymgysylltu cyfnod y pandemig.

Canolbwynt y prosiect oedd y nod o adnabod '**pa fath o gymdeithas y'n ni am fyw ynddi wedi'r argyfwng?**'.

Er mwyn galluogi'r sgyrsiau lleol i gyrraedd y nod gosodwyd strwythur a disgyblaeth ar lun tri chwestiwn – i'w trafod yn unol â threfn eu gosod, ac oll yng nghyd-destun 'ein cymdeithas', sef...

**(1) Ble' o'n ni / Beth oedd cyflwr pethe cyn ymyrraeth y feirws?**
**(2) Beth yw'r gwaethaf all ddigwydd wedi i'r argyfwng glirio?**
**(3) Beth yw'r gore all ddigwydd? Pa gyfleon mae'r ymyrraeth yn eu gwneud yn bosibilrwydd?**

 chaniatad y cyfranogwyr recordiwyd y sesiynau oll – adnodd fu'n allweddol i waith yr ysgogwyr wrth iddynt baratoi dadansoddiad ysgrifenedig o'r sgwrs a ddeilliai o'r tri chwestiwn uchod.

Defnyddiwyd adnodd Zoom hefyd yn gyfrwng i'r tîm ysgogwyr gyd-gwrdd yn wythnosol. Yn ganolog i'w trafod oedd y dadansoddiadau manwl a threiddgar hyn.

## 5 AMSERLEN GWEITHREDU

Wedi cyfnod yr hyfforddi, ymchwilio ac ail-ddiffinio dechreuwyd ar weithredu uniongyrchol **Prosiect Fory** ym mis Mai, 2020 a'i gwpla ym mis Mehefin, 2021.

Er i'r sgrysiau llawr gwlad ddigwydd trwy gydol y cyfnod hwn, cynhaliwyd eu crynswth rhwng mis Mehefin, 2020 a mis Ionawr, 2021.

Wrth i ddwysedd y sgyrsiau gynyddu tyfodd ymwybyddiaeth o fewn y tîm ysgogwyr o ran...

- arwyddocâd a phwysigrwydd y mewnwelediadau yr oedd y sgyrsiau yn eu dadlenni
- yr angen i ddechrau darlledu (rhannu â chymdogaethau eraill) rhai o'r prif themâu
- y posibilrwydd o ymateb yn greadigol i anghenion a photensial y themâu hyn
- y dwysau roedd yr ymarfer yn ei gyflawni ar ein dealltwriaeth o'r broses o ymgysylltu â phobl go iawn o fewn cymdogaethau go iawn, ac felly...
- y potensial o ddatblygu ymarfer newydd o ran egwyddorion a methodolegau priodol ar gyfer 'ymgynghori â chymunedau'

Erbyn Chwefror/Mawrth, 2021 daeth hi'n amlwg fod angen neilltuo amser ac egni ar gyfer rhoi sylw dyledus i'r anghenion a'r potensial uchod. Cynhwysir ffrwyth y cwestiynu a'r dadansoddi a gyflawnwyd yn yr adroddiad hwn.

Tua diwedd y cyfnod hwn, wrth i berthynas cymdeithas â'r feirws Covid-19 ddechrau newid, canolbwyntiodd y tîm ar y dasg o ymateb yn greadigol i dyndra a amlygwyd gan grynswth y sgyrsiau llawr gwlad, sef yr awydd a'r gallu o fewn cymdogaethau i ail-afael yn yr awenau cymdeithasol.

## 6 ALLBYNNAU

Cynhaliwyd cyfanswm o 43 o sgyrsiau Prosiect Fory. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y cyfranogwyr a braslun o'r ddemograffiaeth fesul sir.

| Sir | Sesiynau | Cyfranogwyr | Benyw | Gwryw | Oed:16+ | 30 + | 40 + | 50 + | 60 + | 70 + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 14 | 114 | 53 | 61 | 24% | 11% | 31% | 19% | 23% | 7% |
| Sir Gâr | 19 | 88 | 52 | 36 | 50% | 16% | 11% | 3% | 6% | 7% |
| Sir Benfro | 10 | 50 | 28 | 22 | 26% | 34% | 17% | 17% | 6% | - |

Roedd nifer y cyfranogwyr o fewn y grwpiau yn amrywio'n fawr – o 3 neu 4 (lled arferol yn sir Gâr) hyd at 8 neu 9 (nid anarferol yng Ngheredigion).

Anogwyd ysgogwyr Prosiect Fory i gymell ynghyd grwpiau na fyddai'n unffurf. Adlewyrchir eu llwyddiant yn hyn o beth gan y ffaith fod statws cyflogaeth y cyfranogwyr yn cynnwys...

Ffermwyr / Ffermwragedd
Gweithwyr llawrydd
Pobol ddi-waith
Perchnogion busnes
Gweithwyr cyfryngau
Gweithwyr ieuenctid
Cerddorion ifainc
Gweinidog
Gyrrwr lori
Gwyddonydd
Gweithwyr Iechyd
Gweithwyr celfyddydol
Athrawon / Darlithwyr
Myfyrwyr ysgol / addysg uwch
Swyddogion Awdurdod Lleol
Gweithiwr BT
Swyddogion Busnesau Amaethyddol

Crewyd nifer o sgyrsiau dan faner mudiadau cymdeithasol (e.e. corau cymunedol / Merched y Wawr / Clybiau Ffermwyr Ifainc). Ond roedd crynswth y sgyrsiau'n agored o ran eu cyd-destun cymdeithasol â'u cyfranogwyr – er yn aml â pherthynas â'r mudiadau uchod ac ati – yn cyfrannu at y drafodaeth ar sail eu consyrn dros ac ar ran eu cymdogaeth a'i pherthynas â'r byd.

O ran iaith, roedd crynswth y cyfranogwyr yn rhugl eu Cymraeg. Ond cynhaliwyd 5 o sesiynau lle y cymerwyd rhan gan bobol nad oedd naill ai yn abl neu'n hyderus o ran yr iaith. Yn sgil cynhadledd undydd a gynhaliwyd yn Theatr Felin-fach rai blynyddoedd yn ôl, mae Radio Beca wedi darlledu a chyhoeddi ystod o ddulliau arwain a chynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg tra'n ystyrlon-gynnwys pobol ddi-Gymraeg. Trwy ddefnydd o'r dulliau priodol llwyddodd cyfarfodydd **Prosiect Fory** i fod yn rhai ystyrlon-gynhwysol.

## 7 DEILLIANNAU – Y GWAHANIAETH MAE'R PROSIECT YN EI WNEUD

Trwy gyfrwng proses gyd-gwestiynu, gyd-drafod a chyd-ddadansoddi tîm **Prosiect Fory** deallwyd fod gweithrediadau'r prosiect yn...

- dod a phobl ynghyd i gyd-drafod a chyd-wrando
- ysgogi a galluogi pobl i gwestiynu ac i gyd-gwestiynu



Owain Dafydd yn arwain un o grwpiau trafod Prosiect Fory

## 8 DEILLIANNAU – Y GWAHANIAETH MAE CWESTIYNU A CHYD-GWESTIYNU'N EI WNEUD

Mae cwestiynu a chyd-gwestiynu o fewn cylch diogel y sgwrs yn eu hysgogi a'u galluogi i...

- FYNEGI eu rhwystredigaethau / hofnau a phryderon / canfyddiadau a phersbectifau / dyheadau
- ADNABOD eu hanghenion a'u diffygion / hadnoddau (asedau, galluoedd a chryfderau i'w hadeiladu arnynt) / potensial / yr hyn sy'n bwysig i'r gymdogaeth / syniadau / pethe sydd angen eu newid / sydd angen eu gwella / eu gwneud yn well
- ADNABOD EU GALLU EU HUNAIN i weithredu / i greu newid / i wneud gwahaniaeth / i feddwl a chyd-feddwl yn greadigol

- ADNABOD RHYNGDDYNT eu hunain / perthynas â'i gilydd / medrau a'u cryfderau / diddordebau / blaenoriaethau
- ADNABOD RHYNGDDYNT hyd a lled eu hymroddiad personol / natur eu cymdogaeth a'i chymdeithas.




Beti George yn arwain gweddarllediad TRAFOD FORY HEDDI gyda rhai o ysgogwyr Prosiect Fory

https://www.facebook.com/111861777251486/videos/1587809634739422

## 9 DEILLIANNAU – NEWID ER GWELL Y MAE'R SGYRSIAU WEDI AMLYGU AC ATGYFNERTHU

Mae'r sgyrsiau'n cynnig tystiolaeth gref i'r ffaith fod cyfnod yr argyfwng wedi ysgogi pobl **i** werthfawrogi o'r newydd **bwysigrwydd y lle lleol**. Maent hefyd yn tystio i dwf o ran **ymagwedd gadarnhaol tuag at yr hyn sydd o fewn ein gallu ni'n hunain i'w gyflawni**.

Bu'r cyfle i fynegi ac yna gyd-drafod y themâu hyn yn fodd i **atgyfnerthu eu gafael o fewn y dychymyg cymdeithasol**.

## 10 DEILLIANNAU – GWNEUD GWAHANIAETH / GWEITHREDU LLEOL

Yn ogystal â gallu'r sgyrsiau i achosi gwahaniaeth gadarnhaol o fewn yr unigolion ynghyd â dynameg y grŵp trafod mae tystiolaeth fod proses cyd-gwestiynu Prosiect Fory yn meddu ar

y gallu i effiethio gwahaniaeth uniongyrchol yn y gymdeithas ei hunan. Dyma rai engreifftiau...

***Engraifft 1***

SGWRS PROSIECT FORY – CWMANN / ABERTEIFI / HENDYGWYN

CWESTIWN: Yn sgil y pandemig beth ddyle fod ein blaenoriaeth: ail-ddechrau neu ddechrau o'r newydd?

CANLYNIAD Y CYD-GWESTIYNU (1): Swyddogion Rhanbarth y Gorllewin, Merched y Wawr, yn trafod y cwestiwn ac yn ei rannu â changhennau'r rhanbarth.

CANLYNIAD Y CYD-GWESTIYNU (2): Ysgogiad i arweinwyr lleol feddwl yn greadigol / ddarganfod cymhelliad ac egni newydd.

***Engraifft 2***

SGWRS PROSIECT FORY – TREFDRAETH / CWM GWAUN / ABERGWAUN / LLANGRANNOG / CAERWEDROS / ABERTEIFI / LLANGADOG / TRELECH / CWMANN / LLANDEILO

CWESTIWN: Beth i wneud am broblem gynyddol tai annedd yn cael eu prynu'n dai haf / eu troi'n airbnb?

CWESTIYNU DILYNOL: Poeni fod y broblem yn mynd i waethygu yn sgil y pandemig. / Bydd problem tai fforddadwy (rhent + prynu) yn gwaethygu o ran pobl ifainc / Sgil-effaith hynny o ran (1) allfudiad pobl ifainc a (2) mewnfudiad pobl hŷn / Sgil-effaith (2) o ran iaith a diwylliant / hyfywedd yr economi leol / pwysau ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol

CANLYNIAD Y CYD-GWESTIYNU 1: Rhannu'r cwestiynau a chynghorau bro a chynnig i'r cynghorau roi pwysau ar awdurdodau lleol a senedd Cymru i weithredu er budd diogelu a chryfhau cymunedau yr arfordir a chefn gwlad.

CANLYNIAD Y CYD-GWETSIYNU 2: Pwysau sgwrs Prosiect Fory ar gyngor cymuned yn ysgogi stori yn Golwg 360

***Engraifft 3***

SGWRS PROSIECT FORY - LLANDYSUL

CWESTIWN: Beth yw Cyngor Bro / Tref?

CWESTIYNAU DILYNOL: Beth yw eu diben? / Pa alluoedd sydd yn eu meddiant? / Beth yw ffiniau eu gweithredu / eu gallu i wneud gwahaniaeth?

CANLYNIAD Y CYD-GWESTIYNU 1: Cyfranogwyr Prosiect Fory yn parhau â'r sgwrs.

CANLYNIAD Y CYD-GWESTIYNU 2: Dau aelod o sgwrs Prosiect Fory yn dod yn gynghorwyr bro.

## 10 DEILLIANNAU – GWNEUD GWAHANIAETH: GWEITHREDU EANG

Trwy gyfrwng sesiynau tafoli a dadansoddi cynhwysfawr yr ysgogwyr mae Prosiect Fory wedi creu nifer o weithrediadau er gnweud gwahaniaeth ar draws tair sir y gorllewin, sef...

## 10.1 GWADDOL YR EISTEDDFOD

Defnyddio gohirio gŵyl Tregaron 2021 yn gyfle i godi trafodaeth ynglŷn a sut i sicrhau fod ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â chymdogaethau gwledig yn gadael gwaddol go iawn o ran amgylchedd cynhaliol iaith a diwylliant. Sesiynau trafod lleol wedi'u creu a syniadau wedi'u mabwysiadu i'w trafod gan swyddogion lleol a chenedlaethol yr Eisteddfod Genedlaethol..

## 10.2 HOLIADUR BLWYDDYN DDIWYLLIANNOL

### 65% o fudiadau heb gynlluniau i ail-ddechrau

**70 o fudiadau wedi rhannu eu gobeithion a'u pryderon yn holiadur Prosiect Fory**

Mewn ymateb i holiadur Prosiect Fory, dywedodd 35% o'r mudiadau na fydden nhw'n ailddechrau yn yr hydre', a doedd 30% arall "heb benderfynu".

Roedd 70 o fudiadau o bob cwr o Gymru wedi ymateb i'r holiadur yn ystod mis Medi – mis a fyddai, yn draddodiadol, yn ddechrau'r Flwyddyn Ddiwylliannol Newydd. Roedd y mudiadau hynny'n amrywio o gorau, canghennau MYW, sgowtiaid, CFfI, eglwysi, clybiau cinio, clybiau chwaraeon, cymdeithasau hanes a llenyddiaeth, mentrau cymdeithasol a mwy.

Fe gododd pwysigrwydd mudiadau droeon yn sgyrsiau **Prosiect Fory** – sgyrsiau sydd wedi'u cynnal dros y misoedd diwethaf mewn sawl cymdogaeth. Er bod pobol yn awyddus i beidio â mynd yn ôl i fel oedd pethau, mae'r awydd i ailgydio yn y pethau hynny sy'n rhoi blas ar fywyd, ac sy'n rhoi cyfleoedd i ni gymdeithasu, yn parhau.

**Lleoliadau'n broblem**
Y peth mwyaf oedd yn rhwystro'r clybiau rhag ailymgynnull oedd bod "dim modd cwrdd yn ein lleoliad arferol" – naill ai oherwydd bod y lleoliadau'n anaddas, neu oherwydd nad oedd yr adeiladau hynny wedi agor eto.

Er y pryderon, roedd yna obaith hefyd. Roedd dros hanner y mudiadau'n awyddus i ailymgynnull, naill ai ar ôl cael canllawiau clir (gan lywodraeth neu gan swyddfa ganolog eu mudiad) neu ar ôl iddyn nhw feddwl am ffyrdd newydd o gwrdd yn ddiogel.

**Effaith bositif ar gapeli**
Roedd rhai eglwysi a chapeli'n rhannu sylw diddorol iawn, yn cydnabod bod cael eu gorfodi i greu myfyrdodau digidol (yn hytrach na phregethau) ar y Sul, a chynnal gwasanaethau ar Zoom (yn lle yn y capel) wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobol sy'n gwylio, gwrando a chymryd rhan. Mae'r cyfnod wedi bod o fudd annisgwyl i ambell gymdeithas!

Fe rannodd sawl un syniadau am ffyrdd o barhau i gwrdd, ond gwneud hynny'n ddiogel gan leihau'r ddibyniaeth ar adeiladau. Roedd hynny'n cynnwys cynnal gweithgareddau yn yr awyr agored, gan ddilyn y cyfarwyddiadau 2 fetr, neu gynnal gweithgareddau yn ddigidol, e.e. trwy Zoom.

**Rhai o'r syniadau am weithgareddau diogel i'w cynnal**
- Cwis, neu bingo ar Zoom > Helfa drysor ar-lein > Recordio cân ar wahân a'i rhyddhau fel côr
- Taith gerdded try'r fro > Te pnawn mewn gardd neu barc >Cynnal cystadlaethau a derbyn cynigion trwy Whatsapp/Messenger

**Pwy yw Prosiect Fory?** Mae'r fenter yn bartneriaeth rhwng Radio Beca a Bro360. Nod y ddau yw rhoi'r grym i bobol siapio cymdeithas trwy ysgogi trafodaeth am syniadau, a galluogi darlledu'r syniadau hynny er mwyn eu rhannu'n eang.

MANYLION PELLACH: Lowri Jones 07792 031786 / Euros Lewis 07813 173155

Mae Prosiect Fory yn rhan o gynllun Radio Beca : Ymbweru trwy Ddarlledu a ariennir a chefnogaeth...

arwain sir benfro LEADER Pembrokeshire | CYNNAL Y CARDI | Llywodraeth Cymru Welsh Government

### YR HOLIADUR

Ar y cyd â Golwg 360 a Bro360 cynhaliwyd arolwg o obeithion a phryderon mudiadau a chymdeithasau cynhaliol y Gymraeg (Awst / Medi, 2020) – ar drothwy y flwyddyn ddiwylliannol newydd

*[Gweler y stori uchod]*

## 10.3 ADNABOD ARFER DA O RAN CYMELL CYFRANOGWYR AR GYFER TRAFODAETH GYMDEITHASOL...

### 10.3.1 DULLIAU

- Darganfod y porth / y ffordd mewn
- Chwilio / Adnabod yr enw cyntaf (arweinydd / trefnydd cymdeithasol)
- Adnabod darpar gyfranogwyr:

- y sgwrs gychwynnol
- rhannu’r nod a’r berchnogaeth o’r cychwyn cyntaf
- rhannu/trosglwyddo’r gwaith o gymell ynghyd

- Y gaseg eira:
- darpar gyfranogwyr yn adnabod darpar gyfranogwyr

### 10.3.2 CYFRANOGWYR: Y RHWYSTRAU I’R CYMELL YNGHYD

- Ymarferol:
- anhawster cysylltu / cael ymateb
- anhawster cael amser/dyddiad cyd-gyfleus

- Difrawder:
- dim diddordeb / ‘dim amser’

- Diffyg hyder / Digalondid:
- ‘Cymraeg dim digon da’
- ‘Dim ise darlledu’ (cam-ddeall go iawn / cam-ddehongli bwriadol)
- Mas o’r arfer o gyd-drafod
- Arfer â chydweithio, falle, ond cyd-drafod yn her (tu hwnt i’w ‘man cysurus’ / y norm cymdeithasol)
- Edrych i’r dyfodol o ganol cyfnod tywyll yn heriol
- Blinder ymwneud â phrosiectau Datblygu Cymdeithasol sydd, yn amlach na pheidio, yn dod i ddim / newid dim

- Heriau sylfaenol:
- Dod o hyd i / dewis y porth cywir
- Ennyn hyder darpar gyfranogwyr / Magu perthynas (diffyg adnabyddiaeth o Radio Beca / Prosiect Fory)
- Cael yr hyder i ymyrryd

## 10.4 DOD YNGHYD

Yn sgil y tyndra parthed gallu cymdogaethau i adfer eu bwrlwm cymdeithasol wrth i gyfyngiadau’r pandemig lacio – tyndra oedd yn bresennol yn y sgyrsiau oll – aeth ysgogwyr Prosiect Fory ati i greu canllaw cliw a syml a fyddai yn ysgogi a galluogi arweinwyr bro nid yn unig i ddod a chymdeithas ynghyd unwaith eto ond i fanteisio ar y toriad ar y patrymau hanesyddol i ail-gynllunio a chreu patrymau newydd o gyd-gwrdd a chydweithio fyddai’n briodol i anghenion a photensial y gymdeithas gyfoes.

Datblygwyd y gweithgaredd hwn ar y cyd â Merched y Wawr (Cymru gyfan), Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru.

Lansiwyd llyfryn DOD YNGHYD yn fyw o du fas i Neuadd Talgarreg nos Iau, 8 Gorffennaf, 2021.

Argraffwyd 2,000 o gopïau caled a'u dosbarthu at arweinwyr cymdeithasol trwy gyfrwng y partneriaethau uchod.




Dod Ynghyd (tefrynol).pdf

## 11 ESBYGIADAU / CAMAU NESAF

11.1 Creu adroddiad cynhwysfawr fydd yn cofnodi ac yn dadansoddi'r holl drafodaethau yn fanwl. [Ar waith]

11.2 Darlledu canfyddiadau'r dadansoddiad (mewn trafodaeth a phawb o'r cyfranogion sydd am drafod ymhellach)

11.3 Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu app POPETH FAN HYN – app fydd yn adnabod consyrnau a diddordebau cyfranogwyr parthed amgylchedd cynhaliol y Gymraeg yn siroedd y gorllewin ac yn darlledu iddynt (eu hysbysu) parthed digwyddiadau a datblygiadau perthnasol [Radio Beca ar y cyd â Bro360]

## Ysgogwyr Prosiect Fory

| | |
|---|---|
| Ceredigion: | Heledd Gwyndaf |
| Sir Gâr: | Manon Haf Williams |
| Sir Benfro: | Owain Dafydd |
| | |
| Gweinyddiaeth: | Eileen Curry |
| | Melinda Williams |
| | |
| Ymgychorydd Bro360: | Lowri Jones |
| Ymgynhorydd Radio Beca: | Euros Lewis |